

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ddydd Iau, 13 Ebrill 2023

Yn bresennol: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), y Cynghorwyr Ceris Jones, Amanda Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, John Roberts, Mark Strong a Carl Worrall.

Yr Aelodau Cabinet a oedd yn bresennol: Y Cynghorwyr Matthew Vaux ac Alun Williams.

Y Swyddogion a oedd yn bresennol: Mrs Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Mrs Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal, Mr Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tai, Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau.

(10.00am- 12:20pm)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Elaine Evans, Ann Bowen Morgan a Sian Maehrlein am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim.

3 Strategaeth Dai 2023-2028

Ystyriwyd fersiwn ddrafft Strategaeth Dai Leol 2023-2028. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, roedd gan awdurdodau lleol swyddogaeth strategol o ran y modd yr oedd y farchnad dai leol yn gweithio. Un o'r prif ffyrdd yr oeddent yn cyflawni'r swyddogaeth honno oedd drwy greu Strategaeth Dai Leol. Y nod oedd i'r awdurdod lleol arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu ar gyfer tai ymhob sector a sicrhau bod tai priodol a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu cyflenwi er mwyn bodloni'r anghenion lleol.

Bu'r Strategaeth Dai Leol bresennol ar waith ers 2018 ac roedd yn gynllun ar gyfer 5 mlynedd. O ystyried hyn, cafodd y Strategaeth Dai ei hadolygu a'i diweddarau. Roedd Uwch Swyddogion y Tîm Tai, partneriaid allweddol a Rheolwyr Corfforaethol pob un o'r Pwrth yn rhan o'r adolygiad a gwnaed llawer o waith i gasglu a dadansoddi data.

Roedd y Strategaeth Dai ddiwygiedig yn amlinellu'r weledigaeth am 5 mlynedd arall:

“Bydd digon o lety addas a chynaliadwy ar gael i fodloni anghenion trigolion y sir yn awr ac yn y dyfodol”.

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD ar y canlynol:

- (i) argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo fersiwn ddrafft y strategaeth a dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth; a
- (ii) dylai'r Cabinet ystyried argymhelliad yr Aelodau sy'n nodi y dylai'r Cabinet ysgrifennu at Ms Elin Jones, Aelod Etholaeth yn Senedd Cymru, a'r pedwar Aelod Rhanbarthol yn Senedd Cymru, i fynegi pryder nad oedd yn bosib darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion yng Ngheredigion gan fod y Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar ffosffadau ac ansawdd y dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr argyfwng tai presennol a dylid ystyried y mater.

ft Local Housing Strategy 2023-

4 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanathau Cymdeithasol ar gyfer 2020-2021, 2021-2022

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022. Diffiniwyd y ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y 'Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Bu oedi wrth gwblhau'r adroddiadau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Adroddwyd na fyddai rheswm dros oedi wrth gynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, cytunwyd i argymhell y dylai'r Cyngor dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eu gwaith caled ac ymroddiad yn ystod cyfnod anodd.

5 Cyflwyno i'r Pwyllgor ddiweddariad ar Wasanaeth Therapi Galwedigaethol Porth Gofal

Ystyriwyd yr adroddiad diweddarau ynghylch Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Porth Gofal. Rhoddwyd cefndir manwl ynghylch y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ynghyd â diweddariad ynghylch y sefyllfa bresennol.

Roedd gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol niferoedd uchel o bobl ar y rhestr aros ac roedd y niferoedd hyn wedi cynyddu yn sgil y cyfyngiadau COVID gan mai ymweliadau brys a gynhaliwyd yn unig yn ystod y cyfyngiadau. Gan na lwyddwyd i recriwtio i lanw swyddi gwag am gyfnod hir,

nid oedd y gwasanaeth yn gallu lleihau'r rhestr aros. Yn ogystal, roedd rhywfaint o salwch hirdymor yn y gwasanaeth ac roedd yr unig Therapydd Galwedigaethol llawn amser newydd ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.

Adroddwyd mai'r heriau i'r gwasanaeth ar y pryd oedd fel a ganlyn:-

- 1) Recriwtio Therapyddion Galwedigaethol cymwys – roedd hysbyseb ar gyfer 2 swydd Therapydd Galwedigaethol llawn amser wedi bod allan ers bron i flwyddyn heb unrhyw ymgeiswyr.
- 2) Roedd y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Integredig yn arwain ar bryderon am y gallu i reoli'r tîm oherwydd mynediad i TG a'r adnoddau oedd ar gael. Ar y pryd roedd y galw am y gwasanaeth yn fwy na'r hyn yr oeddent yn medru ei ddarparu ac o'r herwydd roeddent wedi camu nôl o reolaeth weithredol i ddarparu cyfarwyddyd clinigol yn unig. Roedd y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn cael ei reoli'n weithredol gan Reolwr Brysbennu Integredig Porth Gofal a oedd yn Weithiwr Cymdeithasol.
- 3) Roedd 2 Uwch Ymarferydd wedi rhoi rhybudd eu bod yn gadael eu swyddi. Roedd 1 wedi ymddeol ar 18.5.2022. Roedd y llall yn gweithio o bell ac wedi'i leoli y tu allan i Geredigion, ac roedd ar rybudd estynedig tan 31/3/23.
- 4) Ni chafwyd unrhyw ymgeiswyr ar gyfer hysbyseb diweddar am 2 uwch ymarferydd (ers y mis Mai blaenorol). Ar y pryd, roedd y swydd wag yn cael ei rheoli gan weithiwr asiantaeth tra bo'r uwch ymarferydd arall yn gweithio cyfnod rhybudd estynedig.
- 5) Roedd risg y byddai'r rhestr aros yn parhau i gynyddu, gan arwain at fwy o risg oherwydd yr oedi pellach ac wrth i sefyllfaoedd waethygu ar gyfer unigolion a theuluoedd.
- 6) Cynnydd yn yr angen am ofal a chymorth yn sgil oedi yn yr ymyrraeth ataliol a oedd ar gael gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.
- 7) Cynnydd yn nifer y cwynion a diffyg ffydd yn y gwasanaeth wrth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd deimlo'n rhwystredig gyda'r oedi a'r ffaith nad oedd datrysiad nac amserlen i fynd i'r afael â'r problemau.

O ran y penderfyniad i ddefnyddio asiantaeth allanol i gynorthwyo gyda'r rhestr aros, ni fu hyn mor llwyddiannus â'r disgwyl oherwydd cafodd yr asiantaeth drafferthion wrth geisio cael gafael ar Therapyddion Galwedigaethol a oedd yn medru teithio i Geredigion. Dim ond 34 asesiad a gwblhawyd mewn cyfnod o 4 mis a chodwyd pryderon am ansawdd y gwaith felly terfynwyd y contract. Roedd y gwasanaeth wrthi'n trafod ag asiantaeth arall yn Ne Cymru a oedd wedi dweud y byddent yn fodlon darparu nifer o Therapyddion Galwedigaethol er mwyn cefnogi'r gwasanaeth i leihau'r rhestr aros a hynny am gost o £255 yr asesiad.

Roedd y gwasanaeth yn edrych ar y posibilrwydd o recriwtio Therapyddion Galwedigaethol drwy ymgyrch recriwtio rhyngwladol. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng rheolwyr o lechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod problemau ac ystyried cyfleoedd i gefnogi'r gwasanaeth.

Ar y pryd, roedd strwythur y tîm yn cael ei adolygu er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r broses recriwtio ar gyfer y tîm. Roedd asesiad risg wedi'i baratoi ar gyfer y gwasanaeth ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

6 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3, 2022/2023

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2022/2023. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r plant sy'n derbyn gofal a adolygwyd yn ystod trydydd chwarter 2022/23. Roedd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. Sail y wybodaeth oedd y ffurflenni monitro a gwblhawyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob Adolygiad Statudol o Blant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â'r wybodaeth arall yr oedd y Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddiwyd i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiad statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gallai argymhell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i nodi pobl eraill berthnasol er mwyn cael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 1 person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a fu unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc, ac os felly, gallai gyfeirio'r achos i CAF/CASS. Ni chododd yr angen i gymryd y cam hwn mewn unrhyw adolygiad.

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU:

- Ar ddiwedd Chwarter 3, roedd 122 o blant yn derbyn gofal o'i gymharu â 112 ar ddiwedd Chwarter 2.
- Cafodd 116 o blant eu hadolygu yn y chwarter hwn o'i gymharu â 63 yn y chwarter blaenorol. Cwblhawyd nifer fawr o adolygiadau yn y chwarter hwn oherwydd bod y Tîm Innovate wedi dechrau ar eu gwaith yn y sir. Cafodd adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal eu gohirio tan Chwarter 3 pan fyddai mwy o gapasiti, gydag Innovate yn dechrau, a chafodd achosion y plant eu hailneilltuo i weithwyr cymdeithasol newydd a allai gymryd rhan yn y broses adolygu. Cafodd 85.3% o blant eu hadolygu o fewn y terfynau amser statudol o'i gymharu ag 88.9% yn Chwarter 2.
- Gadawodd 8 o blant ofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 6 yn Chwarter 2. Dirymwyd Gorchmynion Gofal 6 o blant, dychwelodd 6 o

blant adref at eu teuluoedd, aeth 1 plentyn i leoliad Pan Fyddaf yn Barod, ac aeth 1 plentyn i lety â chymorth neu i leoliad byw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau.

- O ran y lleoliadau a ddarparwyd ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, roedd 13 o dan ofal maeth yr Awdurdod Lleol, 24 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau (19 yn y sir, 5 y tu allan i'r sir), roedd 22 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol (7 yn y sir, 15 y tu allan i'r sir), roedd 15 o blant wedi'u lleoli gyda'u rhieni (12 yn y sir, 3 y tu allan i'r sir) ac roedd 12 mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir.
- Roedd 74 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 18 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 4 o dan Orchymyn Lleoli, ac 20 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 83.6% ymweliad statudol, o'i gymharu â 93.7% yn Chwarter 2.
- Cofnodwyd bod 42.9% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf. Roedd y ganran isel yn ystod y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal wedi'i Gynllunio a oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Dim ond 16.7% o'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn oedd â Chynllun Parhad yn ei le ac wedi'i gytuno erbyn yr ail adolygiad, o'i gymharu â 57.2% yn y chwarter blaenorol.
- O ran y plant mewn gofal o Geredigion a adolygwyd yn ystod Chwarter 3, roedd y ffigurau ynghylch faint o amser yr oeddent wedi bod mewn gofal fel a ganlyn - 27 llai na 6 mis, 9 rhwng 6 –12 mis, 19 rhwng 1 – 2 flynedd, a 61 ers dros 2 flynedd.
- Ar gyfer y plant a oedd yn cael eu hail adolygiad neu adolygiadau dilynol, dyma oedd y cynlluniau parhad a oedd yn eu lle ar eu cyfer – gofal maeth tymor hir ar gyfer 37 o blant, gofal gan berthnasau ar gyfer 17 o blant, tracio deuol ar gyfer 15 o blant, lleoliad gyda rhiant ar gyfer 15 o blant, gofal preswyl ar gyfer 8 o blant, mabwysiadu ar gyfer 5 o blant, lleoliad byw'n annibynnol ar gyfer 4 o blant, ac adsefydlu yn ôl gyda'r rhieni ar gyfer 1 plentyn.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) a oedd yn deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 95.3%.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgyngori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael gwasanaeth eirioli oedd 92.5%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 95.5%.
- Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 100%.
- Cynhaliwyd 17 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn, o'i gymharu â 33 yn Chwarter 2. Cynhaliwyd 70.6% o'r Adolygiadau o'r Cynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser gofynnol.

- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 82.4%.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

7 **Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Gorllewin Cymru**

Roedd yr holl ddeddfwriaeth ddiweddar o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod bod eiriolaeth yn sylfaenol bwysig mewn sefyllfaoedd pan fo angen i unigolion a grwpiau a oedd ar y cyrion gael cefnogaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu parchu. Roedd eiriolaeth yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno er mwyn annog unigolion a grwpiau i gymryd rhan yn y penderfyniadau a'r prosesau a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

Er nad oedd yn ofyniad statudol, roedd y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol yn ceisio llunio ein trefniadau comisiynu i fodloni'r gofynion cyfreithiol er mwyn sicrhau bod eiriolaeth o ansawdd da ar gael yn rhwydd i bawb sydd ei heisiau, neu sydd ei hangen, yn rhanbarth Gorllewin Cymru, sef Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Roedd y strategaeth hon yn seiliedig ar gyfnod estynedig o ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig felly'r rheiny a oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau eiriolaeth, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, comisiynwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Roedd gan y Strategaeth Eiriolaeth Oedolion hon bum maes blaenoriaeth, ac roedd pob un ohonynt yn anelu at wella'r canlyniadau ar gyfer y bobl a oedd angen eiriolaeth. Cafodd y blaenoriaethau eu diffinio yng ngoleuni gweithgarwch cydgynhyrchu hyd yn hyn, ymgysylltu, yr Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol ac roeddent yn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaeth 1. Cynnal a datblygu ein dull cydgynhyrchu ymhellach.
- Blaenoriaeth 2. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth.
- Blaenoriaeth 3. Gofalu bod eiriolaeth ar gael yn hwylus ac i bawb.
- Blaenoriaeth 4. Gofalu bod safon eiriolaeth yn gyson uchel.
- Blaenoriaeth 5. Cynnal arbenigeddau a mathau anstatudol o eiriolaeth.

Roedd pob blaenoriaeth yn y strategaeth yn amlinellu pam yr oedd yn bwysig a beth oedd y sefyllfa bresennol yng Ngorllewin Cymru. Yn dilyn hyn, roedd pob blaenoriaeth yn amlinellu'r camau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau bod pob un o'r meysydd blaenoriaeth yn cael eu bodloni.

CYTUNWYD i gymeradwyo Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol Gorllewin Cymru fel y'i cyflwynwyd.

8 Cofnodion cyfarfod mwyaf diweddar y Pwyllgor ac unrhyw faterion yn codi ohonynt

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.

Materion yn codi

Dim.

9 I gonsidro'r Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 24 Mai 2023**

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____